
**Rhif**: **2**

**Rhif y Cais / Application Number : C15-1072-34-LL**

**Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.**
**Location Plan for identification purposes only. Not to scale.**



| | |
|---|---|
| Cais Rhif: | C15/1072/34/LL |
| Dyddiad Cofrestru: | 23/10/2015 |
| Math y Cais*:* | Llawn - Cynllunio |
| Cymuned*:* | Clynnog |
| Ward: | Clynnog |
| | |
| Bwriad: | CAIS OL-WEITHREDOL AR GYFER CODI UN RHES O BANELI SOLAR MEWN CAE |
| Lleoliad: | ERW WEN, LLANLLYFNI, GWYNEDD, LL54 6SY |

**Crynodeb o'r Argymhelliad:** CANIATÁU GYDAG AMODAU

**1. Disgrifiad:**

1.1 Cais ôl-weithredol sydd gerbron ar gyfer codi rhes o baneli solar o fewn cae ger yr annedd a adnabyddir fel Erw Wen, ac er elw'r eiddo yma yn unig. Mae'r paneli wedi eu gosod yn eu lle.

1.2 Mae'r safle wedi ei leoli yng nghefn gwlad agored ac o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol rhwng pentrefi Tai'n Lôn a Nasareth. Mae trac mynediad hir i'r eiddo ac i'r safle. Mae safle'r cais o fewn cae sy'n llithro tua'r dyffryn ger yr eiddo, sydd oddeutu 40m i ffwrdd. Mae arwynebedd y paneli oddeutu 66m sgwâr, ac maent yn mesur 22m wrth 3.3m o uchder ac wedi eu lleoli mewn un rhes. Mae llystyfiant sylweddol presennol o gwmpas safle'r cais.

1.3 Mae datganiad Dylunio a Mynediad wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais.

1.4 Mae'r cais yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar gais yr Aelod Lleol.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Unedol.

**2.2 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:**

POLISI B8 - ARDALOEDD O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL (AHNE) LLŶN A MÔN
Gwarchod, cynnal a gwella cymeriad yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol drwy sicrhau fod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig y safle.

POLISI B20 - RHYWOGAETHAU A'U CYNEFINOEDD SY'N BWYSIG YN RHYNGWLADOL A CHENEDLAETHOL
Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi aflonyddwch neu niwed annerbyniol i rywogaethau a warchodir a'u cynefinoedd oni bai y gellid cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion cydnabyddedig y safle.

POLISI B23 - MWYNDERAU
Diogelu mwynderau'r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau'r ardal leol.

POLISI B25 - DEUNYDDIAU ADEILADU
Gwarchod cymeriad gweledol trwy sicrhau fod yn rhaid i ddeunyddiau adeiladu fod o safon uchel sy'n gweddu i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol.

POLISI B27 - CYNLLUNIAU TIRLUNIO

Sicrhau fod cynigion a ganiateir yn ymgorffori tirlunio meddal/caled o safon uchel sy'n briodol ar gyfer y safle ac sy'n ystyried cyfres o ffactorau sy'n anelu i osgoi niwed i nodweddion cydnabyddedig.

POLISI C27 - CYNLLUNIAU YNNI ADNEWYDDADWY A CHYNALIADWY
Caniatáu cynigion am gynlluniau ynni adnewyddadwy a rheoli ynni cyn belled ag y gellir cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn ymwneud ag effaith ar ansawdd gweledol y dirwedd a ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol.

**2.3 Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru 2014

NCT 8 Ynni Adnewyddadwy 2005

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 C15/1169/34/TR - Cadw gwifren trydan uwchben - CANIATÁU - 16-Nov-2015

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
| --- | --- |
| Cyngor Cymuned/Tref: | Heb ymateb |
| Uned Drafnidiaeth: | Dim gwrthwynebiad i'r bwriad, fodd bynnag argymhellir tynnu'r cais i sylw'r Uned Hawliau Tramwy gan fod llwybr rhif 13 Cymuned Clynnog yn rhedeg trwy gwrtil Erw Wen. |
| Llwybrau: | Mae'r adran Cefn Gwlad a Mynediad yn awyddus i sicrhau bydd llwybr cyhoeddus rhif 13 Clynnog Fawr yn cael ei warchod yn ystod a hefyd ar ddiwedd y datblygiad yma |
| Dŵr Cymru: | Heb ymateb |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Ddim yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig mewn unrhyw ffordd |
| Gwarchod y Cyhoedd: | Heb ymateb |
| Uned Bioamrywiaeth: | Mae'r paneli wedi eu gosod mewn cae wedi ei wella o werth fioamrywiaeth isel iawn. Does dim pryderon Bioamrywiaeth am y cais. |
| Uned AHNE: | Heb eu derbyn |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd ar y safle. Mae'r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben ac ni dderbyniwyd unrhyw lythyr / gohebiaeth. |

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae polisi C27 o'r CDUG yn asesu cynlluniau ynni adnewyddadwy a chynaliadwy, ac mae'n caniatáu cynigion cyn belled ag y gellir cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn ymwneud ag effaith ar ansawdd gweledol y dirwedd a ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol.

5.2 Maen prawf rhif 1 - nodir na ddylai'r datblygiad olygu lleoli cynllun gyda chynhwysedd uwch na 5mw o fewn AHNE Llyn, neu na ddylai unrhyw gynllun sydd wedi cael ei leoli tu allan i AHNE Llyn achosi niwed arwyddocaol i'w osodiad neu osodiad AHNE Llyn /Môn neu Barc Cenedlaethol Eryri. Yn yr achos mae'r safle wedi ei leoli o fewn AHNE Llyn, ond mae'r cynllun yn un raddfa fechan, ddomestig a fydd yn cynhyrchu 10kw yn unig. Mae'r cynllun hefyd wedi ei osod mewn lleoliad cuddiedig sydd wedi ei dirweddu'r sylweddol ac yn bresennol gan goed a'r dirwedd sy'n codi tu cefn i'r safle. Ystyrir fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion maen prawf rhif 1 felly.

5.3 Maen prawf rhif 2 - nodir fod rhaid sicrhau fod math, graddfa a dyluniad y datblygiad arfaethedig yn briodol o safbwynt y safle, y lleoliad a'r effaith ar y dirwedd. Fel y sonnir yn flaenorol, mae'r cynllun yma o raddfa fechan ddomestig, ac mae wedi ei leoli ar safle cuddiedig sydd wedi ei dirweddu'r sylweddol ac yn bresennol gan goed a'r dirwedd sy'n codi tu cefn i'r safle. Ystyrir felly fod y bwriad yn addas o ran ei raddfa, dyluniad, lleoliad a'r effaith ar y dirwedd a bod y bwriad yn cydymffurfio ac maen prawf rhif 2 felly.

5.4 Maen prawf rhif 3 - nodir y byddai'n rhaid sicrhau fod unrhyw gyfarpar atodol cysylltiedig yn cael ei ddylunio a'i leoli mewn modd fydd yn lleddfu'r effaith weledol ar y dirwedd. Nid yw'r cais yma yn cynnwys unrhyw adeiladau na chyfarpar atodol i'r fframiau a phaneli solar. Ar sail hyn felly, ystyrir fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion maen prawf rhif 3.

5.5 Maen prawf rhif 4 - nodir na ddylai unrhyw wifrau na phibellau uwchben cysylltiedig achosi niwed arwyddocaol i ansawdd gweledol y dirwedd. Mae'r asiant wedi cadarnhau fod y bwriad wedi ei gysylltu yn danddaearol, a byddai'n rhesymol gosod amod i sicrhau nad yw'r sefyllfa yma yn newid. Mae cais caniatâd o flaen llaw ar gyfer cadw llinell drydan uwch ddaear rhwng polyn ger yr eiddo a pholyn ymhellach i lawr y dyffryn eisoes wedi derbyn cadarnhad gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol nad oedd gwrthwynebiad iddo. Ar sail hyn felly ystyrir fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion maen prawf rhif 4.

5.6 Maen prawf rhif 5 - nodir na ddylai datblygiad arfaethedig peri cynnydd annerbyniol mewn lefelau sŵn, drewdod, llwch na nwyon. Ni fydd y datblygiad yma yn debygol o achosi unrhyw effaith sŵn, drewdod, llwch na nwyon oherwydd ei natur fel datblygiad solar. Ystyrir felly fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion maen prawf rhif 5.

5.7 Maen prawf rhif 6 - nodir na ddylai'r datblygiad arfaethedig achosi unrhyw niwed annerbyniol i systemau hydrolegol (dwr daear a dŵr wyneb), gan niweidio Bioamrywiaeth. Mae'r cynllun yn un o raddfa fechan ac mae wedi ei leoli o fewn cae amaethyddol sydd o werth Bioamrywiaeth isel, ac mae hyn wedi ei gadarnhau gan yr Uned Bioamrywiaeth. Ystyrir felly y byddai unrhyw ddŵr ffo ychwanegol a fydd yn cael ei greu yn lleiafrifol, ac ni fydd yn debygol o gael effaith annerbyniol nac niweidio Bioamrywiaeth. Ystyrir felly fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion maen prawf rhif 6.

5.8 Maen prawf rhif 7 - nodir na ddylai'r datblygiad gynhyrchu lefelau traffig annerbyniol o ystyried ansawdd y ffyrdd a natur yr ardal oddi amgylch. Mae'r cynllun yn un o raddfa fechan ac mae eisoes yn ei le, ac ystyrir y byddai unrhyw effaith ar lefelau traffig yn yr ardal wedi bod yn lleiafrifol, ac ni ystyrir y byddai'n debygol o achosi effaith mwyach ar lefelau traffig erbyn hyn. Ystyrir felly fod y bwriad yn cydymffurfio ac maen prawf rhif 7, a gyda pholisi C27 yn ei gyfanrwydd.

**Mwynderau gweledol**

5.9 Mae polisi B8 o'r CDUG yn gwarchod, cynnal a gwella cymeriad yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol drwy sicrhau fod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig y safle. Mae'r bwriad yma yn gynllun paneli solar ar raddfa fechan ac mewn safle cuddiedig sydd eisoes wedi ei dirweddu gan goed presennol a'r tir

sy'n codi wrth ei gefn; sy'n golygu na fydd y bwriad yn weladwy o bellter. Mae llwybr cyhoeddus yn pasio'r safle, ond er hynny ystyrir y bydd y cyhoedd ond yn gallu gweld y paneli am gyfnod bychan, ac ni ystyrir y byddai yn amharu yn sylweddol ar olygfeydd o'r llwybr.

5.10 Ni ystyrir felly fod y bwriad yn achosi niwed arwyddocaol i'r dirwedd a'r arfordir, bywyd gwyllt, olion ac adeiladau hanesyddol, iaith a diwylliant a natur dawel a di-lygredd yr ardal. Ystyrir felly fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion polisi B8 o'r CDUG.

5.11 Mae polisi B23 o'r CDUG yn diogelu mwynderau'r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau'r ardal leol. Nid oes eiddo arall o fewn 470m i safle'r cais, ac mae'r eiddo agosaf wedi ei leoli ar draws y dyffryn, ac ni fydd y paneli yn weladwy iddynt oherwydd y tirweddu presennol o'u cwmpas. Ni ystyrir y byddai'r paneli yn golygu gorddatblygu'r safle oherwydd eu graddfa fechan, ac ni fydd yn ychwanegu at draffig na sŵn sy'n gysylltiedig â thraffig mewn modd sy'n achosi niwed arwyddocaol i amwynderau lleol. Ni ystyrir y byddai'r cynllun yn cynyddu cyfleoedd i unigolion ymddwyn yn anghymdeithasol nac yn creu awyrgylch ble buasai pobl yn teimlo'n anniogel i gerdded beicio neu chwarae ar y llwybr cyhoeddus. Nid oes angen ystyried anghenion mynediad i'r cyhoedd i'r safle gan ei fod yn safle preifat ac yn gysylltiedig â'r eiddo yn unig.

5.12 Ar sail yr uchod felly, ystyrir fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion polisi B23 o'r CDUG, a hefyd polisi B27 sy'n sicrhau cynlluniau tirweddu digonol ac addas.

5.13 Mae'r paneli wedi eu gosod ar ffrâm syml alwminiwm sydd wedi ei leoli yn y tir. Mae'r paneli wedi eu gorchuddio a gwydr dilewyrch er mwyn sicrhau fod y paneli yn amsugno lefel uchel o olau'r haul. Ystyrir fod y deunyddiau yma yn addas ac felly fod y bwriad yma yn cydymffurfio a gofynion polisi B25 o'r CDUG.

**Materion bioamrywiaeth**

5.14 Mae'r Uned Bioamrywiaeth wedi cadarnhau fod y paneli wedi eu gosod mewn cae wedi ei wella o werth fioamrywiaeth isel iawn, a hefyd wedi cadarnhau nad oes ganddynt bryderon bioamrywiaeth o ganlyniad i'r bwriad. Ystyrir felly nad yw'r bwriad yn debygol o achosi aflonyddwch neu niwed annerbyniol i rywogaethau a warchodir a'u cynefinoedd, ac felly fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion polisi B20 o'r CDUG.

## 6. Casgliadau:

6.1 Ni ystyrir fod y bwriad yn groes i unrhyw bolisi cynllunio perthnasol ac ni ystyrir fod y bwriad yn cael effaith andwyol ar fwynderau'r ardal leol nac unrhyw eiddo cyfagos.

## 7. Argymhelliad:

7.1 Caniatau – amodau

1. Cwblhau'r datblygiad yn unol â'r cynlluniau
2. Rhaid i unrhyw gysylltiad gwifren o'r paneli fod yn danddaearol neu fel y cytunir yn wahanol gyda'r ACLl o flaen llaw.